

**COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR Y 6ED O FAWRTH 2024**

Yn bresennol:	Y Cadeirydd Hefin W. Jones.
Y Cynghorwyr:	Helen W Jones, Keith O'Brien, Aron Roberts, Enid Roberts, Idwal Williams, Richard Davies.
Hefyd yn bresennol:	Karen Hughes (Swyddog Ariannol) Elfed Roberts (Cyngorydd Sir) Lona Williams (Clerc)
Ymddiheuriadau	Llywarch Davies, A Huw Jones.

**2363 - COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 7fed o Chwefror fel rhai cywir gan y Cadeirydd.

**2364 - MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Mynychodd y Cyngorydd Enid Roberts y cyfarfod aml- asiantaeth. Adroddodd nad oedd modd gosod llinellau melyn yno gan nad oedd digon o drafnidiaeth ar y ffordd hono. Dywedodd bod yr Heddlu erbyn hyn wedi trafod gyda perchenog y tryc ger y cae chwarae a bod hwnw wedi cael ei symud. Cytunodd perchenog y Garej Lôn i beidio a gweithio'n ymyl y ffordd oni bai ei fod yn newid bwlb. Bu Mark Roberts o Adran yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn ymweld â'r Garej a bydd yn parhau i wneud hyn er mwyn goruchwyllo'r safle yn y dyfodol. Dywedwyd fod gan y perchenog yr hawl i barcio hyd at 10 cerbyd ar ei dir. Byddent yn ymchwilio i fasnach sy'n digwydd ar y safle gan bod 13 o gwynion wedi dod i law yn dilyn holiadur gan y pentrefwyr.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo – Dim adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 –Adroddodd y Cyngorydd Elfed Roberts ei fod wedi cysylltu â Carina o'r sefydliad Gan Bwyll er mwyn sefydlu grŵp cymunedol sy'n pryderu am ddiogelwch ar y ffyrdd. Cytunwyd i'r Cyngorydd Elfed Roberts e-bostio'r manylion ymlaen pan gaiff ymateb gyda chyswllt pellach.

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd bod cais wedi ei gyflwyno'n enw pwyllgor y Neuadd yng nghanol mis Chwefror. Nid oedd y cais hwn wedi mynd o flaen y panel gan bod Nia Hughes o'r loteri eisiau holi rhagor o gwestiynau. Y bwriad yw ail gyflwyno'r cais ar ddiwedd mis Mawrth er mwyn iddo fynd o flaen panel ym Mis Ebrill. Roedd Adrian Roberts wedi gwneud cais i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth ynglyn a grantiau lleol a dderbyniwyd yn y gorffennol.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddwyd bod Chris Hall yn fodlon gwneud yr arolwg Yslymod. Anfonodd ei gynllun gwaith yngyd â phris yr arolwg o £604.50. Cytunwyd bod cyfarfod brys is-bwyllgor am gael ei gynnal ar y 12/3/24 er mwyn drafftio cytundeb a rheolau'r fynwent o'r newydd i'w cadarnhau yng nghyfarfod mis Ebrill.

2085(3) - Llys Ednowain – Adroddodd y Cadeirydd bod y darpar brynwr wedi cysylltu gyda cais i ostwng pris Llys Ednowain. Daeth Natwest yn ôl ato gyda ffigwr o £170,000 fel gwerth yr adeilad oherwydd y cyflwr presennol. Cytunwyd i ostwng y pris i £172,500 ar Swyddog Ariannol i gysylltu â Tom Parry a'r Cyfreithwyr.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Derbynydd e-bost gan Mr Andrew Gregson yn nodi bod angen gyrru'r gwaith cynnal marciau ffyrdd neu arwyddion ymlaen i Adrian Williams o'r adran Prif Ffyrdd. Cytunwyd i yrru'r e-bost gwreiddiol ymlaen.

2229(7) - Lloches Bws Ty Gwyn – Adroddwyd bod y lloches bellach yn ei lle ond nad oedd panel ar y tu blaen. Cytunwyd i gyfeirio'r mater ymlaen i Rhian Williams Rheolwraig Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddodd y Cyngorydd Enid Roberts bod Mr David Owen bellach wedi dechrau ar y gwaith.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddwyd bod y Pensaer Rhys Davies wedi ei benodi i wneud y gwaith, ond nad oedd wedi bod mewn cysylltiad hyd yma. Cytunwyd i gysylltu â Naomi Jones am ddiweddariad a chadarnhad fod yr arian wedi ei gadw wrth gefn yn y gronfa am y flwyddyn ariannol bresennol.

2255(1) - Pont Troed Llyn Trawsfynydd – Debynydd e-bost gan Elin Parry Jones yn gofyn am gyfarfod ar Cyngor. Cytunwyd mai mis Mehefin fyddai'r amser gorau i wneud hyn. Adroddodd y Cyngorydd Keith o Brien ei ganfyddiadau yn dilyn ei ymweliad i'r archifdy. Dywedodd mai pont bren i gyd oedd y dyluniad gwreiddiol gyda grisiau pren yn arwain oddi wrthi ar ochr Brynysguboriau. Gwelodd gynllun "blue print" o'r un haearn yno, ond dim manylion i gyd fynd â'r cynllun. Adroddodd mai gweithred rhwng y NWPC a'r Cyngor Plwy (1927) oedd yno a gwelwyd cymal ynddi yn datgan mai'r NWP oedd yn gyfrifol am ei chynnal a bod gan y Cyngor Plwy hawl i wneud y gwaith angenrheidiol os oedd yr NWP wedi methu a'r hawl gan y Cyngor Plwy i'w anfonebu am y gwaith. Gwelodd lythyr yno gan reolwr yr Atomfa o tua 1960 yn nodi pryderon y Cyngor Plwy am gyflwr y bont a byddai yn cymryd camau yn ddiymdroi i'w thrwsio. Codwyd consyrn ar fwy nag un achlysur yng nghofnodion y Cyngor Plwy nad oedd canllaw wedi ei osod ar y llwybr serth yn arwain i lawr i'r bont. Adroddwyd gan y Cadeirydd bod 362 llofnod o'r ddeiseb ar y we a dros 600 o'r siop. Cytunwyd bod Ty'n y Pistyll yn leoliad addas i roi'r faner newydd a bod angen 11 polyn ffens i'w dal yn ei lle. Dywedwyd hefyd y byddai'n gyfle da i osod y faner ar ddiwrnod ras y llyn ar y 7fed o Ebrill yn ogystal. Dywedodd y Cyngorydd Elfed Roberts fod ganddo gyfarfod gyda'r wasg ar yr 8fed o Fawrth i drafod y bont.

2321(2) - Camperfan yn y Maes Parcio – Cytunwyd i yrru'r ohebiaeth ymlaen i Gyngor Gwynedd unwaith yn rhagor.

2321(6) - Cae Chwarae Ty Llwyd – Adroddwyd bod y gwaith wedi ei gwblhau. Cytunwyd i yrru e-bost i Mitie i ddiolch am yr offer. Cytunwyd i ofyn i gwmni Tir a Choed i newid y polion rhwng y parc a'r hen lein.

2327(2) - Sedd Wâg – Derbynydd llythyr gan Elfed ap Elwyn yn datgan ei fod yn rhoi'r gorau i fod yn gyngorydd. Mae 2 sedd wâg yn awr. Cytunwyd bod y Cadeirydd am yrru llythyr o ddiolch iddo. Cytunodd y Swyddog Ariannol i gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysu am y sedd wag. Cadarnhaodd y byddai yn rhoi y gwybodaeth ar safle we y Cyngor.

2333(4) - Caeau Chwarae Cefn Gwyn a Maesgwyndy - Adroddodd y Cyngorydd Elfed Roberts bod cae chwarae Maes Gwyndy wedi cael gwaith ail beintio cyfarpar a gwaith ar feinciau a bod cae chwarae Cefn Gwyn i gael gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Cytunwyd i barhau i gysylltu â adran gwynion Adra.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Y Swyddog Ariannol wedi bod mewn cysylltiad gyda'r dylunwyr a wedi gofyn i gael cyfarfod dros Teams. Y Clerc a'r Cadeirydd wedi cytuno i fod yn rhan o'r cyfarfod Teams. Dyddiad i'w gadarnhau.

2335(2) - Polisi Claddu Lleol – Cyfarfod brys ar y 12/3/24 i adnewyddu'r rheolau a'r cytundeb.

2360(2) - Bancio Ar-lein – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod y Cyngor bellach yn bancio ar lein.

2362(2) - Polisi Cyfieithu y Cyngor – Dim ymateb i'r e-bost. Y Swyddog Ariannol am ail yrru'r e-bost.

### **2366 - ADRODDIAD ARIANNOL**

- (1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

### **2367 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD**

- (1) Cytunodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Enid Roberts a'r Swyddog Ariannol i barhau i glirio dogfennau'r Cyngor o Lys Ednowain.
- (2) Safle bws Maes Gwyndy – Cafwyd e-bost gan Daniel King yn nodi bod y bysiau wedi bod yn stopio tu allan i Ty'n Ffridd a na all bysiau stopio gyferbyn a'r lloches bws oherwydd y ceir sydd wedi parcio tu allan i'r tai teras. Cytunwyd i yrru e-bost i'r cyngor i ofyn am arwydd mewn man priodol ym Maes Gwyndy er mwyn nodi ble mae'r safle bws swyddogol.
- (3) Byrddau Dehongli o amgylch y Llyn - Adroddwyd gan y Cynghorydd Idwal Williams ei fod wedi gyrru'r wybodaeth ymlaen i Gwyn Lloyd yng nghylch lleoliadau'r byrddau dehongli.
- (4) Ffordd o'r Chalets Bronaber i Penstryd - Adroddwyd nad oedd ymateb oddi wrth Adrian Williams a cytunwyd i yrru'r e-bost unwaith yn rhagor.
- (5) Rhoddion Ariannol – Daeth pum cais i law. Cytunwyd roi £1500 i'r Neuadd a £150 i weddill y sefydliadau. Y Swyddog Ariannol i yrru sic i bob sefydliad.
- (6) Y Cynghorydd Anest Smith eisiau gwneud y dyletswyddau Mynwent Pencefn, Mynwent Salem ac archwilio Cae Chwarae Tŷ Llwyd yn ystod y Gwanwyn a'r Haf yn hytrach na'r Gaeaf, hefyd mae angen rhywun i gymeryd lle Elfed Wyn ap Elwyn.
- (7) Cytunwyd i e-bostio cwmni Eginio er mwyn ein diweddarau ar brosiect niwclear Trawsfynydd.
- (8) Ffordd Cyngor at Bryn Llin – Adroddwyd bod nifer fawr o dyllau yn y ffordd rhwng yr adwy derfyn a Bryn Llin Fawr. Cytunwyd i e-bostio Adrian Williams.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nid oedd adroddiadau o'r cyfarfodydd yn ystod y mis.